

COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANLLYFNI A GYNHALIWDYD NOS FAWRTH,

9fed Mai 2023 YN Y GANOLFAN TALYSARN AM 7.00YH

1. **Presennol** – Ceri Owen (Cad), Barry Bracegirdle, Erfyl Williams, Dylan Herbert, Justin Davies (cyrraedd yn hwyrach ymlaen yn ystod y cyfarfod) (Penygroes), Gwyndaf Roberts, Hefina Roberts, Christine Hughes (Llanllyfni), Dafydd Thomas (Nebo), Harry Owen, Gareth Jones, Siân Dafydd (Talysarn), Ffion Jones (Nantlle), Cyng. Peter Thomas.

Ymddiheuriadau – Judith Humpherys (Penygroes), Peter Bridges (Talysarn).

Hefyd yn bresennol roedd aelodau o'r Orsaf a thrigolion Maes Y Môr, Penygroes ar gyfer trafod eitem 4 - Tir Cwtin.

2. **Datgan Buddiant** – Nid oedd neb yn dangos buddiant.

3. **Cywirdeb cofnodion cyfarfod 11eg Ebrill 2023** - Cynigwyd ac eiliwyd bod y cofnodion yn gywir.

4. **Tir Cwtin** - Croesawyd aelodau o'r Orsaf a thrigolion Maes Y Môr i'r cyfarfod. Darllenwyd crynodeb o e-byst a oedd wedi eu derbyn dros y mis diwethaf gan wahanol aelodau o'r cyhoedd ayyb ynglŷn â thir Cwtin, rhai o blaid ei droi yn rhandiroedd eraill yn erbyn. Derbyniwyd gohebiaeth hefyd na fydd modd defnyddio maes parcio Wynnstay ar gyfer defnyddwyr y rhandiroedd. Roedd cais wedi dod gan Faes Y Môr iddynt gael troi'r tir yn nôl i gae chwarae pêl-droed. Teimlwyd y dylid rhoi cyfle iddynt ddod ymlaen gyda chynllun ar gyfer hyn ac wedyn bydd dau gais ar y bwrdd i'w drafod. Gofynnodd un o'r trigolion pe bai yn rhaid iddynt ofyn am les ar y tir - bydd rhaid i hyn fod yn rhan o'r cynllun maen nhw am ei gyflwyno. Cynigwyd ac eiliwyd y dylid rhoi hyd nes 31 Gorffennaf i Faes Y Môr ddod a chynllun ymlaen ac wedyn bydd y mater yn cael ei drafod yng nghyfarfod mis Medi'r Cyngor. Cododd Siân Dafydd bwynt am sylwadau a wnaed mewn cyfarfod blaenorol ynglŷn â pherchnogaeth y darn o dir ac esboniodd mai'r Cyngor Cymuned sydd ei berchen ond nad ydi o wedi ei gofrestru a dyna pam ei bod hi wedi cynnig i gofrestru'r tir ar ran y cyngor. Codwyd materion ynglŷn â chynllun Yr Orsaf a gofynnwyd am esboniadau (eto erbyn 31 Gorffennaf) - nodwyd y byddai'r gwelâu blodau wedi eu codi oddi ar y ddaear, sut buasai modd cadw y rhan oddi tanynt yn daclus? Pwy yw'r 38 o drigolion sydd wedi dangos diddordeb yn y rhandiroedd - gobeithio bod y rhain i gyd yn aelodau o ardal Cyngor Cymuned Llanllyfni? Gan ein bod nawr yn gwybod na fydd parcio yn bosib yn Wynnstay - beth yw eu cynllun nesaf? Toiledau - beth yw oriau agor Yr Orsaf - bydd pobl yn mynd i'r rhandiroedd bob amser o'r dydd - sut bydd modd defnyddio'r toiledau os nad yw'r Orsaf ar agor. Gofynnwyd i'r ddwy ochr nodi os bydd y cynllun yn dod i ben pwy fydd yn gyfrifol am glirio'r safle cyn ei drosglwyddo yn nôl i'r Cyngor Cymuned. Diolchwyd i bawb am fynychu a bu i aelodau'r cyhoedd adael y cyfarfod.

5. **Materion yn codi o'r cyn gofnodion ac ymatebion Cyngor Gwynedd** – Cerbiau Trem Yr Wyddfa – dim ymateb wedi dod ynglŷn â'r cais i gyfarfod i edrych ar y sefyllfa. Cylchdro Talysarn – gobeithio erbyn mis nesaf bydd pethau yn symud ymlaen.

6. **Adroddiadau gan y Cynghorwyr Sir** - derbyniwyd adroddiad gan y Cyng. Peter Thomas ac roedd pawb wedi cael cyfle i edrych drosti cyn y cyfarfod - nid oedd dim yn codi o'r adroddiad a diolchwyd iddo am ei pharatoi. Gofynnwyd a oedd modd edrych i mewn i'r ffaith os yw'r Cynghorwyr Sir i fod i fynychu cyfarfod blynyddol y cyngor cymuned fel rhan o'u swyddogaeth fel cynghorwyr.

7. **Cyfarfodydd is-bwyllgorau** – nid oedd is-bwyllgor wedi ei gynnal yn ystod y mis.

Bu i Justin Davies gyrraedd y cyfarfod ar y pwynt hwn.

8. **Materion Pentrefi - Nebo** - adroddwyd bod tarmac wedi ei roi ar Lôn Pant y Gôg, ond gan fod llawer o gerbydau wedi bod yn mynd ar ei hyd mae yn llanast eto. Y ffordd o'r sgwâr i Penchwarel mewn cyflwr gwael iawn ac angen sylw. **Llanllyfni** - yr arwydd SatNav dal heb gael ei osod felly angen dilyn fyny ar hyn a hefyd copio Cyng. Dafydd Davies fewn i'r e-bost. **Nantlle** - defaid yn cael rhyddid i grwydro ar hyd y pentref a chreu llanast a niwsans.

Rhywbeth angen ei wneud ynglŷn â hyn. **Penygroes** - y grisiau wrth ymyl Wynnstay i fyny i Lôn Eifion - mae darn o goedyn wedi torri ac yn beryglus. Holwyd os oedd yna unrhyw beth wedi dod fewn ynglŷn ag adeilad sydd yn cael ei godi rhwng Lôn Las Glynllifon a Thyddyn Bengam - dim byd wedi ei dderbyn. **Talysarn** - y tyllau ar Lôn yr Eglwys wedi eu llenwi ond dim wedi ei wneud am Fryn Celyn. Canclwm ar ochr y ffordd rhwng Talysarn a Penygroes ac angen ei waredu cyn iddo waethygu.

9. Taflen ariannol a chyllid – roedd pawb wedi cael copi o’r gyllideb cyn y cyfarfod i edrych drosto. Bydd angen edrych ar y rhestr o bethau sydd ei angen ar gyfer yr archwiliad llawn 2023/24.

10. Llwybrau a Mynwentydd - **Mynwent Gorffwysfa** - pris o £204.00 wedi ei dderbyn gan Designer Signs am roi arwydd i bobl fynd a sbwriel adref gyda nhw, cynigwyd ac eiliwyd i dderbyn y pris a gofyn iddynt osod yr arwydd cyn gynted a bo modd. Pris o £1520 + TAW wedi ei dderbyn ar gyfer tynnu'r cwt i lawr - oherwydd bod y pris dros £500 mae rhaid rhoi hysbyseb allan i ofyn i eraill am brisiau - hysbyseb i’w roi allan a dyddiad cau o 31 Mai ar gyfer hyn. Y contractwyr torri gwair wedi gofyn ac yn iawn iddynt fynd i roi chwynladdwr yn y mynwentydd. Cytunwyd i hyn ond pwysig i’w atgoffa bod angen rhoi arwyddion yn rhybuddio'r cyhoedd a’u gadael yno am ychydig wedi i’r gwaith gael ei wneud. **Llwybr rhif 96 Nebo i Bant Y Gog** - y contractwyr wedi bod yn edrych ar y llwybr er mwyn adrodd ar y gwaith sydd angen ei wneud i’w ail-agor. Adroddwyd bod angen torri mieri a chodi bylchau, gosod camfa am fod darn o’r llwybr wedi ei ffensio i ffwrdd a bellach yn ddarn o iard Bryn Melyn. Gan nad yw wedi cael sylw ers blynyddoedd mawr nid oes modd ei gerdded bellach. Angen siarad gyda Rob Jones o’r adran llwybrau am y ffensio sydd wedi digwydd ar y llwybr. **Llwybrau** - angen atgoffa'r contractwyr am restr o’r gwaith maent wedi ei gario allan dros y misoedd diwethaf. Trafodwyd y mater nad yw’r Cyngor Cymuned yn gwybod yn union beth a pryd mae llwybrau yn cael eu torri. Cynigwyd ac eilwyd y dylid cael cyfarfod gyda’r contractwyr i drafod hyn ac y dylid gofyn iddynt ddod i’r cyfarfod mis Mehefin. Y clerc i gysylltu gyda nhw am hyn.

11. Lloches bws Penygroes - trafodaeth wedi bod gyda Designer Signs am y gwaith ar y lloches bws a chafwyd pris o £2214 + TAW, ond hefyd yn ychwanegol i hyn bydd angen pris trims ond ar hyn o bryd nid oedd hyn ganddynt. Oherwydd y pris bydd yn rhaid ei roi allan i dendr. Hysbyseb i fynd allan gyda dyddiad cau o 31 Mai a thrafod yn y cyfarfod mis Mehefin.

12. Prosiect ynni cymunedol Nebo - darllenwyd yr ebost a oedd wedi ei dderbyn. Trafodwyd a chynigwyd i ymateb i ddweud nad yw’r Cyngor mewn sefyllfa i roi barn ar hyn o bryd a buasai yn cael ei drafod pan fuasai cais cynllunio yn dod ymlaen. Cytunwyd gyda hyn.

13. Cais i osod arwyddion gan Gomisiwn beddau rhyfel y Gymanwlad - trafodwyd hyn a chytunwyd yn unfrydol iddynt barhau i osod yr arwyddion ond bod angen gwneud yn siŵr bod y Gymraeg yn dod gyntaf.

14. Cwyn am lorïau yn trafelïo i Safle Taldrwst ar hyd Lôn Ddŵr - llythyr wedi ei dderbyn gan un o drigolion Lôn Ddŵr - darllenwyd y llythyr a thrafodwyd. Cynigwyd y dylid gofyn i Gyngor Gwynedd am adroddiad o’r gwaith monitro sydd wedi bod yn mynd ymlaen. Pan soniwyd am hyn tro diwethaf cytunwyd i fynd ar mater yn uwch os nad oedd newidiadau. Cynigwyd i yrru'r llythyr hwn ymlaen i Gyngor Gwynedd ynghyd â gofyn beth mae Cyngor Gwynedd wedi ei fonitro a sut. Ymateb hefyd i’r llythyr yn dweud hyn.

15. Gwefan newydd i’r Cyngor Cymuned - angen trafod a phenderfynu os am fynd ymlaen a chael gwefan newydd. Yr un bresennol wedi dyddio ac eisïau ei uwchraddio. Cynigiodd Justin Davies y buasai yn fodlon gwneud y gwaith dylunio am ddim ar gyfer hyn. Angen meddwl am syniadau o beth fydd angen ei roi ar y wefan newydd a mynd ymlaen o hyn.

16. Ceisiadau Cynllunio - codwyd y mater ei fod wedi ei benderfynu rhai blynyddoedd yn nôl mai cynghorwyr y pentrefi sydd gyda chais cynllunio sydd i benderfynu ar geisiadau cynllunio. Gofynnwyd a oes modd mynd yn nôl i’r drefn yma? Cytunwyd yn unfrydol i hyn, felly o hyn ymlaen y clerc ond i yrru’r ceisiadau i’r cynghorwyr priodol.

- Cais trwyddedu eiddo newydd Bragdy Llew Cyf, Ystâd Ddiwydiannol Penygroes - PASIO
- C23/0304/22/LL – Canolfan Hamdden Dyffryn Nantlle – Darparu manau parcio - PASIO
- C23/0302/20/LL - Chwarel Cae Efa Lwyd Penygroes - Estyniad i bwll tywod a graen - ANGEN GOFYN A YW'R AMODAU AR Y CAIS CYNT YN PARHAU.
- C23/0094/22/LL – Chwarel Dorothea – Codi bwrdd / arwydd gwybodaeth ynghyd a chreu maes parcio i ymwelwyr y chwarel – PASIO AR YR AMOD BOD Y GYMRAEG YN DOD GYNTAF AR YR ARWYDD.
- C23/0158/22/DT – 1 Fron Dirion, Nebo – estyniad deulawr at ochr yr adeilad - PASIO
- C23/0341/22/LL - Bryn Clwyd Ffordd Llwyndu, Penygroes - estyniad llawr daear ochr i dŷ presennol ar wahân – Bu i Gareth Jones adael yr ystafell gan ei fod yn datgan diddordeb yn y mater – PASIO.

17. Gohebiaeth – nid oedd dim yn codi o'r ohebiaeth a oedd wedi ei dderbyn dros y mis.

18. Materion ariannol - cytunwyd i dalu Nia Jones £25.00. Ond gan nad yw Archwilio Cymru wedi gorffen y gwaith archwilio eto penderfynwyd dal nôl cyn talu'r anfoneb hon o £324.00.

Diolchwyd i bawb am fod yn bresennol a bydd y cyfarfod nesaf yw gynnal nos Fawrth, 13eg Mehefin 2023 am 7.00yh.